



Ein cyf/Ein cyf: qA1404970

Gareth Denning
Arweinydd y Tîm Cynlluniau Datblygu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

05/10/20

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr: Diwygiad 1af o'r Cytundeb
Cyflawni
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel
y'u diwygiwyd)**

Diolch am eich e-bost dyddiedig 18 Medi yn gofyn inni gytuno ichi gael diwygio'ch Cytundeb Cyflawni yng ngoleuni'r amgylchiadau eithriadol sy'n gysylltiedig â Covid-19.

Mae paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) yng Nghymru. Mae'r cynllun yn offeryn corfforaethol ac yn fynegiant, ar ffurf defnydd tir, o flaenoriaethau ACLlau wrth iddynt ymdrin â materion cenedlaethol a lleol. Un o'r materion hynny yw pandemig y Coronafeirws. Yn llythyr y Gweinidog (dyddiedig 7 Gorffennaf 2020), tynnodd y Gweinidog sylw at bwysigrwydd y system gynllunio o ran helpu i lunio gwell dyfodol i Gymru wrth inni fynd ati i ymadfer. Mae cynllun datblygu cyfredol yn sail i holl sylfaen y system gynllunio yng Nghymru ac mae'n atgyfnerthu ymrwymiad y Llywodraeth i system sy'n cael ei harwain gan gynlluniau.

Mae'ch Cyngor yn cynnig estyniad ffurfiol i'r amserlen y cytunwyd arni, a fydd yn arwain at 6 mis o oedi cyn ymgynghori am y cynllun sydd wedi'i Adneuo. Y bwriad wedyn fydd ei gyflwyno i'w archwilio ym mis Medi 2021, a rhagwelir y bydd yn cael ei fabwysiadu yng ngwanwyn 2022 (Atodiad 2). Mae'r oedi o 6 mis yn adlewyrchu'r cyfyngiadau cenedlaethol a osodwyd ledled Cymru mewn ymateb i bandemig y Coronafeirws ac, yn benodol, anallu pobl a busnesau i weithredu fel yr arferent ei wneud cyn yr argyfwng. O ystyried hynny, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod un


cyfnod llithriant o 3 mis ar gyfer y Cytundeb Cyflawni hwn yn fodd i gynnwys rhywfaint o hyblygrwydd yn yr amserlen cyn bod angen mynd ati i'w ddiwygio'n ffurfiol.

Wrth gynnal yr archwiliad, un ffordd o bwysu a mesur yw'r cynllun yn un 'cadarn' ai peidio yw ystyried a yw'n cadw at y Cynllun Cyflawni y cytunwyd arno, gan gynnwys y Cynllun ar gyfer Cynnwys y Gymuned (CIS). Sylwaf fod eich Cynllun Cyflawni wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor yn ystod pandemig y Coronafeirws a bod y Cynllun Cynnwys y Gymuned wedi'i addasu yn sgil hynny i adlewyrchu cyngor diweddaraf y Llywodraeth a'r gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol. Nodaf hefyd eich bod wedi nodi y gallai fod angen addasu'r ffyrdd o ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid yn ystod gweddill y camau sy'n gysylltiedig â pharatoi'r cynllun (paragraff 3.9.1). Ystyrir mai dyna'r peth synhwyrol i'w wneud er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymgysylltu ac er mwyn addasu yn wyneb unrhyw gyfyngiadau a gaiff eu cyhoeddi yn unol â rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Ar ôl ystyried eich cais mewn perthynas â'r Cynllun Cyflawni, gallaf **gadarnhau fy mod yn cytuno** i'r amserlen ddiwygiedig yn Atodiad 2 fel y darperir ar ei gyfer gan Adran 63(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd).

Dylech drefnu bellach fod y fersiwn gyhoeddedig o'ch Cynllun Cyflawni ar gael i'r cyhoedd yn unol â'r gofynion a bennir yn Rheoliad 10.

Yn gywir



Neil Hemington
Prif Gynllunydd
Chief Planner

CC:

Richard Matthams, Arweinydd y Tîm Cynllunio Datblygu
Richard.Matthams@bridgend.gov.uk

Adam Provoost, Prif Swyddog Cynllunio Strategol
Adam.Provoost@bridgend.gov.uk

Jonathan Parsons, Rheolwr Cynllunio a Datblygu
Jonathan.Parsons@bridgend.gov.uk